**AIL AGOR YR YSGOL.**

Annwyl rieni,

Diolch am ymateb i'r holiadur blaenorol, a da yw deall bod carfan uchel o ddisgyblion yn awyddus i ddychwelyd am gyfnod i deulu arbennig Glanrafon.

Rydym wrthi'n gweithio trwy ein proses o allu dod â disgyblion yn ôl i'r ysgol am y mis olaf o'r tymor, mewn modd a fydd yn ddiogel i'r plant a'r staff i gyd, gan mai dyna yw ein blaenoriaeth.

Bydd **Hwb Gofal** yn weithredol bob dydd (o ddydd Llun i ddydd Gwener) o 8 a.m.-5.30 p.m. yng Nglanrafon, ar gyfer plant gweithwyr allweddol. Os yw eich plentyn/plant yn y categori hwnnw, a'ch bod angen defnyddio'r Hwb, a fyddech cystal â'u cofrestru ar schoolcomms erbyn **dydd Llun, Mehefin 15fed. os gwelwch yn dda** (gweler yr holiadur sydd i ddilyn mewn neges ar wahan). Cofiwch gysylltu os nad ydych yn sicr am y broses o ddefnyddio schoolcomms. Ni all y plant sy'n mynychu'r Hwb, hefyd ddod i'r ysgol yn ystod y mis.

Rydym mewn sefyllfa i roi mwy o fanylion i chi am ein bwriadau ar sut i weinyddu'r broses o ail agor yn Ysgol Glanrafon. Byddwn yn parhau mewn cysylltiad cyson â chi i rannu mwy o wybodaeth - ceisiwn gadw hwnnw i ychydig o ffeithiau pwysig ar y tro.

- Bydd cyfle i'r disgyblion ddod i'r ysgol am floc o 3 diwrnod yn ystod y mis (hwn wedi newid ers i ganllawiau'r Llywodraeth ddod i law).
- Y diwrnodau fydd Mawrth, Mercher a Iau. Bydd hyn yn fodd i osgoi traws halogiad.
- Bydd y cyswllt dyddiol hyd at 4 awr ar y tro. Y rheswm dros y sesiynau byrrach yw lles a diogelwch plant a staff.
- Bydd grwpiau o hyd at 8 o ddisgyblion o'r un flwyddyn ysgol mewn stafelloedd penodol am y tri diwrnod.
- Oherwydd maint y grwpiau, ni fydd y disgyblion, o reidrwydd, gyda'u hathrawon nac yn eu dosbarth arferol, ond byddant yn sicr gydag aelod o staff cyfarwydd iddynt.
- Nid yw'r AALl wedi gwneud penderfyniad hyd yma os yw plant Meithrin yn rhan o'r cynllun hwn ai peidio.
- Rhoddir pecyn bwyd am ddim i bawb i osgoi dod ag unrhyw eitemau o adref.
- Bydd dysgu o bell yn parhau yn ystod y cyfnod hwn.

Er mwyn ein galluogi i symud ymlaen gyda'r trefniadau, a fyddech cystal â nodi eich penderfyniad terfynol yn yr holiadur, trwy glicio ar y ddolen fydd yn eich cyrraedd yn fuan, ac ymateb erbyn 12.00 o'r gloch **ddydd Llun, Mehefin 15fed os gwelwch yn dda.**

Sylweddolir bod llawer iawn i chi feddwl amdano, ond gwyddom y byddwch yn gwerthfawrogi bod cymaint o ffactorau i'w hystyried wrth symud ymlaen yn dilyn datganiad y Gweinidog Addysg a chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Cofion caredig iawn atoch oll.

*Ll.M.Jones (Miss)*

(Prifathrawes)

***SCHOOL RE-OPENING.***

*Dear parents,*

*Many thanks for your response to the questionnaire, and it's good to see that a high percentage of pupils are eager to return to Glanrafon's close knit family.*

*We are working our way through the process of enabling pupils to return to school during the last month of the term – in a way which will be safe for both pupils and staff – that is our priority at this time*

*A **Resilience Hub** will be located at Ysgol Glanrafon for those children whose parents are key workers (Monday to Friday – 8 a.m. – 5.30 p.m.). If your child is in that category and you wish him/her to access the Hub, would you kindly register them on schoolcomms by **Monday, June 15th please**. (See the questionnaire to follow). Please contact if you have any technical issues regarding the schoolcomms booking system. Those pupils attending the Hub any time during the month, will not be able to attend school also during the four weeks.*

*We are in a position to give you further details regarding this process at Ysgol Glanrafon. We will continually be in contact with you to share further details- we aim to limit each correspondence to a few important details at a time.*

- *There will be an opportunity for children to come in on a block of 3 occasions (this having changed since receiving the Government guidelines) during the month.*
- *The allocated days will be Tuesday, Wednesday and Thursday. This will avoid cross contamination.*
- *The daily contact sessions will be for up to 4 hours. The reason for the shorter sessions is the welfare and safety of both pupils and staff.*
- *Groups of no more than 8 children from the same school year will be in specific rooms for the three days.*
- *Due to the size of the groups, the children will not necessarily be with their class teachers or in their usual classrooms, but they will certainly be with staff that they are accustomed to.*
- *The LEA has not made a decision if Nursery pupils will be part of the programme.*
- *A free packed lunch will be provided as no-one is to bring anything from home.*
- *Distance Learning will continue.*

*In order to assist us in moving forward, would you kindly fill in the questionnaire by clicking on the link that will soon follow, and respond by 12 o'clock on **Monday, June 15th. please.***

*We realise that you have a great deal to think about, but we also know that you'll appreciate that there are so many factors to consider as we act upon the Minister of Education's statement and the Welsh Government's Guidelines.*

*Very best wishes to you all,*

*Ll.M.Jones (Miss)*

*(Headmistress)*